PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

28 MEHEFIN 2019

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD CYNNAL

ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:

Derbyn diweddariad gan yr awdurdod cynnal

RHESYMAU:

Yr awdurdod cynnal i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn: 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

28 MEHEFIN 2019

DIWEDDARIAD AR YR AWDURDOD CYNNAL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cytunwyd ar Gynllun Gwaith 2019/20 gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019. Dogfen waith yw hon fydd yn cynorthwyo Partneriaeth Pensiynau Cymru i gyflawni ei amcanion a'i nodau cyffredinol am y flwyddyn.

Y rhannau allweddol presennol ar gyfer gwybodaeth yw:

- Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) - mae'r polisi BC yn adran Llywodraethu'r cynllun gwaith wedi cael ei ehangu. Bydd polisi BC drafft yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgorau Pensiwn unigol yn eu cyfarfodydd Pwyllgor Pensiwn nesaf gyda'r bwriad o'i gymeradwyo yn y CBLl ar 20 Medi.

- Gweithdai Llywodraethu - awgrymir y gellir cyflawni nifer o weithgareddau yn yr adran llywodraethu drwy gynnal Gweithdai Credoau, Polisïau a Llywodraethu. Ceir mwy o fanylder, gan gynnwys buddion cynnal y gweithdai hyn, yn y papur Hymans sydd ynghlwm.

- Gwefan - dyfarnwyd y contract i greu a chynnal a chadw gwefan PPC yn barhaus i Tinint (*Tinopolis Interactive*), cwmni lleol o Lanelli, am y ddwy flynedd nesaf, gydag estyniad am flwyddyn yn bosib. Y gost am y flwyddyn gyntaf yw £4.9k a'r gost flynyddol am hostio a chefnogi wedyn fydd £1.2k bob blwyddyn. Mae'r Awdurdod Cynnal a Tinint wedi cyfarfod a dylai'r wefan fod yn fyw erbyn dechrau mis Awst 2019.

- Cyfathrebu a Hyfforddiant - bydd sawl gweithgaredd allweddol dan Gyfathrebu a Hyfforddiant, gan gynnwys creu / datblygu cynllun cyfathrebu a chynllun hyfforddiant yn cael ei roi yn ei le yn dilyn gweithdy cyfathrebu sy'n cael ei gynnal ar ôl y cyfarfod CBLl hwn.

  Mae cynllun gwaith 2019/20 wedi'i ddiweddaru ynghlwm.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **OES**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Bydd nifer o ddogfennau polisi a gweithdrefn, gan gynnwys y polisi Buddsoddi Cyfrifol, yn cael eu datblygu a ddaw'n ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				
Cyllid Cost gwefan o £4.9k yn 2019/20 gyda chost bellach o £1.2k yn 2020/21 a 2021/22				

YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
GWELER MANYLION ISOD

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN